GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Ysbyty Athrofaol y Faenor

# Llyfryn Gwybodaeth i Gleifion

**Adran y Glust, y Trwyn a'r Gwddf**



**Mae'n hynod bwysig eich bod yn dilyn yr holl gyfarwyddiadau yn y daflen hon yn ofalus. Gall methu â gwneud hynny olygu na allwch gael eich triniaeth.**

**Nodwch, gwaharddir ysmygu ar diroedd Ysbyty Athrofaol y Faenor.**



## Anestheteg

**Os na fyddwch yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn yn llwyr, efallai y bydd eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo neu ei gohirio.**

Mae’n hynod bwysig bod eich stumog yn wag pan fyddwch yn cael anesthetig cyffredinol. Er mwyn sicrhau hyn, peidiwch â bwyta nac yfed am beth amser cyn eich llawdriniaeth.
Os ydych yn cymryd Omeprazole, Lansoprazole, Pantoprazole neu Esomeprazole, cymerwch fel y cyfarwyddir gan y Nyrs Cyn Asesu.

**Dilynwch y cyfarwyddiadau ymprydio hyn:**

### Llawdriniaethau Bore i ddod i mewn erbyn 7:30am.

Gallwch fwyta ac yfed yn ôl yr arfer tan 2am. Dim ond ychydig o ddŵr plaen, heb fod yn befriog a heb flas y gallwch ei yfed (150mls/awr) tan eich bod yn cael eich casglu i fynd i’r theatr. Ni ddylech gael unrhyw fath arall o fwyd ar ôl 6am. Mae hyn yn cynnwys gwm cnoi, melysion a chynhyrchion disodli nicotin.

### Llawdriniaethau Prynhawn i ddod i mewn erbyn 10:30am

Gallwch yfed dŵr yn ystod y nos a gallwch gael brecwast ysgafn ar fore eich llawdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys tost, grawnfwyd a the/coffi. Mae’n rhaid i chi orffen eich brecwast erbyn 7:30am a stopio bwyta ar ôl hynny. Mae hyn yn cynnwys gwm cnoi, melysion a chynhyrchion disodli nicotin. Dim ond ychydig o ddŵr plaen, heb fod yn befriog a heb flas y gallwch ei yfed (150mls/awr) tan eich bod yn cael eich casglu i fynd i’r theatr.

## Cyn i chi ddod i’r Ysbyty

**Trefnwch y pethau canlynol cyn i chi ddod i’r ysbyty:**

- Sicrhewch fod gennych rywun i fynd â chi adref. Ni ddylech ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar ôl eich llawdriniaeth. Os credwch eich bod yn gymwys ar gyfer cludiant ysbyty, gallwch ffonio 0800 32 82 332 am wybodaeth a chyngor.
- Sicrhewch fod gennych oedolyn cyfrifol i aros gyda chi am 24 awr yn dilyn eich llawdriniaeth, gan gynnwys dros nos os byddwch yn mynd adref ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.

## Pethau na ddylech eu gwneud

- Peidiwch â chymryd cyffuriau hamdden am 14 diwrnod cyn eich triniaeth. Gallai hyn arwain at eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo.
- Peidiwch ag yfed alcohol noson cyn eich triniaeth.
- Dylai ysmygwyr leihau faint sy’n cael ei ysmygu un wythnos cyn y driniaeth a rhoi'r gorau iddi yn gyfan gwbl am y 24 awr cyn dod i'r ysbyty.

- Peidiwch â gwisgo unrhyw emwaith, gemwaith corff, colur, ewinedd acrylig neu baent ewinedd, estyniadau gwallt neu amrannau ffug. Gallwch wisgo modrwy briodas.

**Meddyginiaeth**

Os ydych yn cymryd Warffarin, Asbirin, Dipyridamole (Persantin), Clopidogrel (Plavlx), Dabigatan, Apixaban neu Rivaroxaban, sicrhewch eich bod wedi dilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan y tîm Cyn Asesu i roi’r gorau iddynt. Os ydych wedi colli eich cyfarwyddiadau, neu os ydych wedi dechrau cymryd unrhyw un o’r meddyginiaethau hyn yn ddiweddar, ffoniwch yr Adran Cyn Asesu ar 01633 238178.

**A ydych yn Ffit ac yn Iach?**

Os oes unrhyw newid yn eich iechyd, h.y. rhywbeth newydd yn cael ei ddiagnosio neu mae eich meddyginiaeth yn cael ei newid, os ydych yn amau bod gennych haint o unrhyw fath nad yw wedi’i drin â gwrthfiotigau (neu os oes gennych annwyd neu haint ar y frest), gallai hyn effeithio ar eich derbyniad i’r ysbyty.

Os oes gennych unrhyw bryderon, ffoniwch:
Clercod Trefnu Apwyntiadau Adran y Glust, y Trwyn a’r Gwddf ar 01633 234420/ 238567.

**Cael eich Derbyn i’r Ysbyty ar Ddiwrnod y Llawdriniaeth**

Pethau i’w gwneud ar y diwrnod y byddwch yn dod i’r ysbyty:

- ✓ Cymerwch gawod neu fath cyn dod i’r ysbyty. Peidiwch â defnyddio elïau, olewau na thalc ar eich croen.
- ✓ Fe'ch cynghorir i wisgo dillad llac ac esgidiau cyfforddus fflat oni bai eich bod wedi cael eich cynghori yn wahanol.
- ✓ Cymerwch eich meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn ôl yr arfer gyda sip o ddŵr, oni bai eich bod wedi cael eich cynghori i stopio gan y tîm Cyn Asesu.

Pethau i ddod gyda chi:

- ✓ Yr holl gyffuriau, meddyginiaethau a mewnanadlwyr yr ydych eu hangen.
- ✓ Pyjamas, gynau nos, gŵn llofft, sliperi, ychydig o bethau ymolchi a thywel.
- ✓
- ✓ Rhywbeth i ddarllen
- ✓ Câs sbectol gyda’ch enw, cynhwysydd a thoddiant ar gyfer lensys cyffwrdd, os ydych yn eu defnyddio.

**Ewch i Ysbyty Athrofaol y Faenor, Ward C, Llawr Gwaelod**

Byddwch yn cael eich cyfarch gan aelod o staff a fydd yn gwirio eich enw, eich cyfeiriad, eich dyddiad geni a manylion eich Meddyg Teulu. Bydd aelod o’r tîm nyrsio yn cynnal rhai gwiriadau meddygol terfynol. Byddwch hefyd yn cael eich gweld gan

eich llawfeddyg a'ch anesthetydd a fydd yn gallu ateb unrhyw ymholiadau meddygol a allai fod gennych am yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod y dydd.
**Oriau Ymweld – I'w hwyluso gan y ward**

**Cael eich Rhyddhau o'r Ysbyty**

Ar ôl anesthetig
Efallai na ddylid dibynnu ar eich crebwyll eich hun am 24-48 awr ar ôl anesthetig cyffredinol felly:
- PEIDIWCH â gyrru cerbyd na reidio beic
- PEIDIWCH â gweithredu unrhyw beiriannau nag offer domestig
- PEIDIWCH ag yfed alcohol
- PEIDIWCH ag arwyddo unrhyw ddogfennau cyfreithiol

**Gwybodaeth Ddefnyddiol**
Triniaeth Arfaethedig ………………………………………………………………………………………
Dyddiad eich Derbyniad i'r Ysbyty ……………………………………………………………

**Manylion Cyswllt**
Adran Cyn Asesu: 01633 238178
Tîm Trefnu Apwyntiadau Adran y Glust, y Trwyn a'r Gwddf: 01633 234420/ 238638 238567

**Gwefannau Defnyddiol**
ENTUK
EIDO
Rcoa.ac.uk/patientinfo/anaesthesia-explained

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**